# CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR SAFONAU, 11.07.11

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Keith Greenly-Jones a Margaret Griffith.

**Aelodau Annibynnol:-** Mr John Pollard (Cadeirydd), Mr Gwilym Ellis Evans, Mr Malcolm Jones a Mr Sam Soysa.

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:-** Cynghorydd David Clay.

**Hefyd yn Bresennol:** Sion Huws (Swyddog Priodoldeb) ac Eirian Roberts (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriadau:-** Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (aelod etholedig); Mr Gwyn Williams (aelod annibynnol).

**1. CROESO**

Estynnwyd croeso i Llio Mererid, disgybl o Ysgol y Berwyn, Y Bala, oedd ar brofiad gwaith yn yr Uned Gyfreithiol.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

Gofynnwyd i'r pwyllgor ethol is-gadeirydd gan fod tymor yr is-gadeirydd presennol yn dod i ben y mis hwn.

Eglurodd y Swyddog Priodoldeb y rheolau yn ymwneud â chadeiryddiaeth ac is-gadeiryddiaeth y Pwyllgor Safonau gan nodi bod rhaid i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ddod o blith yr aelodau annibynnol. Nododd fod tymor swydd yr aelodau annibynnol yn wahanol i'w gilydd, a hynny ar bwrpas er mwyn sicrhau dilyniant. Ychwanegodd y penodwyd Mr Gwilym Ellis Evans yn Is-gadeirydd yn 2005 yn ystod ei gyfnod cyntaf fel aelod annibynnol. 'Roedd modd ei ail-ethol am ail gyfnod, ac er sicrhau cysondeb, gellid gwneud hynny am y cyfnod hyd fis Mai nesaf, pan fydd y Gadair hefyd yn dod yn wag, neu hyd ddiwedd ei gyfnod ar y pwyllgor.

**PENDERFYNWYD ail-ethol Mr Gwilym Ellis Evans yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau am y cyfnod hyd at Mai 2012.**

Diolchodd yr Is-gadeirydd i'r aelodau am y fraint o gael ei ail-ethol.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**4. MATERION BRYS**

Nododd y Swyddog Priodoldeb y byddai'n rhoi diweddariad i'r aelodau ar ddiwedd y cyfarfod ynglŷn â'r achos oedd fod gerbron y pwyllgor heddiw.

Yna hysbysodd yr aelodau fod Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon wedi ymddangos yn ddiweddar iawn. 'Roedd i'w weld ar wefan yr Ombwdsmon a byddai'n cael ei gyflwyno i sylw'r pwyllgor hwn maes o law.

Nododd ymhellach y byddai'n dosbarthu taflen ar ddiwedd y cyfarfod yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer Cynhadledd Safonau 2011.

## 5. CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD JOHN PUGHE ROBERTS

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn gofyn i'r pwyllgor benderfynu ar gais am ollyngiad gan y Cynghorydd John Pughe Roberts, Cyngor Gwynedd.

Dosbarthwyd – copi o ffurflen gais yr aelod am ollyngiad.

Adroddodd y Swyddog Priodoldeb y byddai'r Cyngor yn ystyried cynlluniau i ad-drefnu ysgolion dalgylch Ysgol y Gader, Dolgellau yn eu cyfarfod ar 14 Gorffennaf a bod y cynlluniau ar gyfer y dalgylch wedi eu rhannu yn dair rhan, sef (i) ysgolion ochr ddwyreiniol y dalgylch, (ii) ysgolion yr ochr orllewinol a (iii) ysgolion tref Dolgellau.

Eglurodd fod y Cynghorydd John Pughe Roberts wedi datgan buddiant sy'n rhagfarnu mewn cysylltiad ag ysgolion yr ochr ddwyreiniol oherwydd bod plant ei chwaer yn ddisgyblion yn Ysgol Dinas Mawddwy ac iddo gael gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau mewn cysylltiad â'r buddiant hwn ar 12 Hydref, 2009, sef:-

*"Caniatáu gollyngiad i'r aelod gymryd rhan yn y trafodaethau ac i bleidleisio ar faterion a ystyrir gan y Panel Adolygu Dalgylch a chan bwyllgorau'r Cyngor a'r Cyngor llawn."*

Adroddodd ymhellach i'r cynghorydd ddatgan buddiant arall sy'n rhagfarnu yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ar 23 Mehefin, 2011, sef bod plentyn ei chwaer yn ddisgybl yn Ysgol y Gader ac iddo ofyn am ollyngiad i ganiatáu iddo gymryd rhan yn y Cyngor llawn pan drafodir yr ysgol honno ar y sail bod plant Dinas Mawddwy yn mynychu Ysgol y Gader a'i fod yn Gynghorydd dros Ddinas Mawddwy. 'Roedd hefyd wedi nodi ar ei ffurflen gais am ollyngiad bod ei chwaer yn Reolwr Tŷ Meirion, sef uned addysg arbennig sy'n digwydd bod wedi'i lleoli ar dir Ysgol y Gader. Fodd bynnag, fe'i cynghorwyd yn y Pwyllgor Craffu nad oedd hyn yn fuddiant sy'n rhagfarnu gan nad yw'r cynllun ad-drefnu ysgolion yn effeithio mewn unrhyw ffordd ar Dŷ Meirion.

Atgoffwyd yr aelodau bod gan y Pwyllgor Safonau'r hawl i ganiatáu gollyngiad os yw'r sefyllfa yn dod o fewn un (neu fwy) o'r sefyllfaoedd a restrwyd yn y rheoliadau perthnasol. Nodwyd hefyd bod y pwyllgor yn y gorffennol wedi gosod canllaw i'w ystyried wrth ddod i benderfyniad ar geisiadau yn ymwneud â threfniadaeth ysgolion, sef:-

*"Y byddai tad / mam, taid / nain, ŵyr / wyres, gŵr neu wraig, plant, brawd neu chwaer yn creu cysylltiad rhy agos i ganiatáu gollyngiad o safbwynt ysgolion penodol oherwydd y byddai'n anodd i'r cyhoedd gael hyder yn y modd y gwneid y penderfyniadau."*

Nododd y Swyddog Priodoldeb ymhellach fod canllawiau'r Ombwdsmon ar y Côd Ymddygiad (Ebrill 2010) yn nodi'r canlynol mewn cysylltiad â gollyngiadau (tud.35):-

*"Bydd angen i'r pwyllgor safonau gydbwyso budd y cyhoedd mewn atal aelodau sydd â buddiant sy'n rhagfarnu rhag cymryd rhan mewn penderfyniadau, yn erbyn budd y cyhoedd mewn gwneud penderfyniadau gan grŵp o aelodau'r awdurdod sy'n weddol gynrychioliadol."*

Wrth ystyried y cais, awgrymodd rhai aelodau fod plant i frawd neu chwaer cynghorydd yn gysylltiad yr un mor agos â brawd neu chwaer cynghorydd a bod y canllaw yn rhy gyfyngedig o safbwynt y cysylltiadau teuluol a restrir.

Cynigiwyd caniatáu i'r cynghorydd siarad, ond nid i bleidleisio, ar y mater yn y Cyngor gan fod y cysylltiad teuluol yn rhy agos.

Fodd bynnag, nododd y Cadeirydd fod y pwyllgor wedi penderfynu'n flaenorol nad oedd cysylltiad teuluol o'r fath yn rhy agos gan iddynt ganiatáu cais y cynghorydd am ollyngiad tebyg yn 2009. Awgrymodd hefyd y gallai cael yr hawl i siarad yn y Cyngor roi llawer mwy o ddylanwad i aelod na'r hawl i un bleidlais allan o 75.

Nododd aelod, er bod nith neu nai y tu allan i'r rhestr o gysylltiadau teuluol a ystyrid yn rhy agos yn ôl y canllaw, y byddai cysylltiad brawd neu chwaer cynghorydd ag ysgol yn agos iawn os yw eu plant yn ddisgyblion yno. I'r diben hwn, awgrymwyd y dylai'r rhestr o gysylltiadau yn y canllaw hefyd gynnwys disgynyddion brawd neu chwaer cynghorydd, yn ogystal â disgynyddion y cynghorydd ei hun.

Nododd y Cadeirydd fod yna berygl y gallai hynny arwain at sefyllfa o eithrio bron pob aelod rhag cymryd rhan mewn trafodaeth.

Awgrymodd aelod arall y gellid ychwanegu geiriau megis "*neu unrhyw berthynas arall o'r fath a allai fod yn groes i fuddiant cyhoeddus yn nhŷb y Pwyllgor Safonau*".

Fodd bynnag, nododd y Cadeirydd y gallai hynny greu amwyster.

Yna nododd aelod fod yna wahaniaeth sylfaenol rhwng y ddau gais am ollyngiad oherwydd, yn wahanol i'r achos yn 2009, 'roedd yna argymhelliad penodol y tro hwn i gau'r ysgol y mae plentyn chwaer y cynghorydd yn ddisgybl ynddi.

Awgrymodd y Cadeirydd mai rôl y pwyllgor hwn oedd ystyried buddiant y Cynghorydd yn hytrach na natur yr argymhelliad sydd gerbron y Cyngor a rhybuddiodd y gallai gwrthod y cais hwn wneud gwaith y pwyllgor yn anodd iawn yn y dyfodol.

Cynigiwyd y dylid caniatáu gollyngiad i'r aelod siarad, ond nid pleidleisio, a gwahaniaethwyd yr achos yma oddi wrth sefyllfa pan ganiatawyd gollyngiad llawn i'r cynghorydd yn 2009 ar y sail bod argymhelliad penodol gerbron ynglŷn â chau'r ysgol y tro hwn.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Mewn perthynas â'r buddiant sy'n codi oherwydd bod plentyn chwaer yr aelod yn ddisgybl yn Ysgol y Gader, caniatáu gollyngiad i'r aelod siarad, ond nid i bleidleisio, pan drafodir Ysgol y Gader.**

**(b) Bod y pwyllgor hwn yn adolygu'r canllaw ar gyfer ystyried ceisiadau am ollyngiadau ym maes trefniadaeth ysgolion gan geisio gwybodaeth gan aelodau eraill Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru ynglŷn â sut maent hwy yn ymdrin â cheisiadau o'r fath.**

## 6. LLYTHYR ODDI WRTH GADEIRYDD PWYLLGOR SAFONAU POWYS

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn gofyn i'r pwyllgor ystyried cynnwys llythyr a anfonwyd gan Gadeirydd Pwyllgor Safonau Powys at rai o aelodau'r Cynulliad yn mynegi pryder nad yw'r Ombwdsmon yn cyfeirio achosion at y Pwyllgor Safonau os yw'n credu na fyddai'r pwyllgor hwnnw yn penderfynu cosbi er bod aelod wedi torri'r côd.

Nododd aelodau nad oedd y pwyllgor hwn wedi profi'r un broblem â Phowys. Pwysleisiwyd, fodd bynnag, na fyddai'r pwyllgor hwn yn osgoi rhoi cosb os yw aelod wedi torri'r côd ac y dylai'r Ombwdsmon gael mwy o ffydd yn y pwyllgorau safonau.

**PENDERFYNWYD cyfeirio'r mater i sylw Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru ac adrodd yn ôl i'r pwyllgor hwn yn dilyn hynny.**

## 7. GWRANDAWIAD Y PWYLLGOR SAFONAU

Rhoddodd y Swyddog Priodoldeb ddiweddariad i'r aelodau ynglŷn â'r achos oedd fod gerbron y pwyllgor heddiw gan nodi y gohiriwyd y gwrandawiad, yn dilyn cais gan yr Ombwdsmon, gan nad oedd y Cynghorydd sy'n destun yr ymchwiliad wedi ymateb yn ddigonol i'r holiadur. Fel canlyniad, nid oedd yr Ombwdsmon wedi gallu paratoi ei achos mewn pryd ar gyfer y gwrandawiad. Yn dilyn ymgynghoriad gyda'r Cadeirydd, penderfynwyd gohirio'r gwrandawiad y tro hwn ac 'roedd yn ofynnol gosod dyddiad newydd ar ei gyfer. Unwaith y ceid dyddiad pendant, gofynnid am gadarnhad ysgrifenedig gan y Cynghorydd o beth yn union mae'n fwriadu ymladd fel ffeithiau a phe na dderbynnid unrhyw ymateb ganddo, byddai'r gwrandawiad yn mynd yn ei flaen yn ei absenoldeb.

Cyfeiriodd aelod at gŵyn ddiweddar yn erbyn aelod o Gyngor Gwynedd mewn perthynas â lluniau a ymddangosodd ar dudalen yr aelod ar wefan Facebook. Er bod Gwasanaeth Erlyn y Goron bellach wedi datgan na fyddent yn parhau gyda'r achos, pwysleisiwyd bod yna wersi i'w dysgu o hyn ac awgrymwyd y dylai'r hyfforddiant a drefnir ar gyfer aelodau newydd o'r Cyngor yn dilyn yr etholiadau ym Mai 2012 dynnu sylw at ddefnydd amhriodol o'r we a pheryglon rhwydweithio cymdeithasol ynghyd â'r hyn sy'n ddisgwyliedig o gynghorwyr fel ffigurau cyhoeddus ac unigolion.

Dosbarthwyd taflen i'r aelodau yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer Cynhadledd Safonau 2011.

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00am a daeth i ben am hanner dydd.